



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales



WALES **AUDIT** OFFICE

SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiw m ERW

**Consortiw m ERW
Heol y Coleg
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3EQ**

Mehefin 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/09/2016

Cyd-destun

Proffil rhanbarthol

Mae ERW yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer rhanbarth o chwe awdurdod lleol, sef: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.

Roedd 101,527 o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 2015. Mae hyn yn cynrychioli 28% o'r holl ddisgyblion yng Nghymru. Mae 513 o ysgolion a gynhelir yn y rhanbarth, sef 32% o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru (CYBLD, 2015).

Mae 17.5% o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r ffigur cenedlaethol, sef 18.8%. Y lefel hon o gymhwyster yw'r isaf ond un o'r pedwar consortiw m rhanbarthol (CYBLD, 2015).

Yn y rhanbarth, dywed 24% o bobl sy'n dair oed ac yn hŷn eu bod yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 19% (Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Ar 31 Rhagfyr 2015, mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 4% o'r boblogaeth yn y rhanbarth ac mae hyn yn debyg i gyfartaledd Cymru.

Ar 31 Mawrth 2015, mae 1,515 o blant yn y rhanbarth yn derbyn gofal gan awdurdod lleol ac mae hyn yn cynrychioli 27% o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Proffil perfformiad

At ei gilydd, deilliannau disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yw'r uchaf yng Nghymru. Mae'r gyfradd wella yn neilliannau disgyblion yn Ne Orllewin a Chanolbarth Cymru bron ym mhob dangosydd yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn debyg i'r gyfradd gwella gyfartalog ledled Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, o dan y ffigurau rhanbarthol, mae amrywiad eang mewn deilliannau rhwng y chwe awdurdod lleol. Er 2012, mae cyfran yr ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig y barnwyd eu bod yn dda neu'n well am eu safonau pan gawsant eu harolygu yn is na'r gyfran ledled Cymru.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae deilliannau asesedig athrawon yn y Cyfnod Sylfaen wedi cynyddu'n gyflymach na deilliannau ledled Cymru. Yng nghyfnod allweddol 2, mae deilliannau asesedig athrawon yn debyg i'r rheiny ledled Cymru. Mae perfformiad o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru yn debyg i'r cyfartaledd yn y ddau gyfnod hyn.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi cynyddu ar gyfradd debyg i'r gyfradd ledled Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru yn is na'r cyfartaledd.

Yn 2015, yng nghyfnod allweddol 4, cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, yw'r uchaf ar draws y pedwar consortiwm rhanbarthol. Mae perfformiad ar y dangosydd hwn wedi bod yn gryf am y tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, ceir amrywiad mawr rhwng yr awdurdodau lleol, sy'n amlwg yn y targedau meincnod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn 2015, mae tri o'r chwe awdurdod lleol islaw eu targedau tra bod dau ohonynt ymhell uwchlaw.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella ar gyfradd debyg i'r gyfradd ledled Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2015, cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, yw'r uchaf o'r pedwar consortiwm rhanbarthol. Cyfran y bechgyn sy'n cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, yw'r uchaf o'r pedwar rhanbarth. Er gwaethaf hyn, y bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yw'r ehangaf yng Nghymru gan fod merched yn perfformio'n arbennig o dda.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio wedi cynyddu ychydig yn gyflymach na'r gyfradd ledled Cymru. Yn 2015, y perfformiad yn y mesur hwn yw'r uchaf o'r pedwar consortiwm rhanbarthol. Mae perfformiad o gymharu â thargedau meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer y mesur hwn yn dangos bod amrywiad mawr rhwng y chwe awdurdod lleol. Mae cymariaethau ag ysgolion tebyg ledled Cymru yn well na'r cyfartaledd ar y cyfan ar gyfer y mesur hwn, er bod hyn yn bennaf o ganlyniad i'r perfformiad cryf gan ddau awdurdod lleol yn y rhanbarth.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gwella ar gyfradd gyflymach na'r gyfradd ledled Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf a hwn oedd y perfformiad uchaf yng Nghymru yn 2015.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni pum gradd A* neu A mewn TGAU neu gyfwerth wedi aros yn gymharol gyson dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2015, cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r mesur hwn yw'r cryfaf yng Nghymru.

Yng nghyfnod allweddol 4, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg wedi gwella'n gyflymach nag y mae ledled Cymru yn gyffredinol. Yn 2015, mae perfformiad o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru yn debyg i'r cyfartaledd. Nid yw cyfradd y gwelliant mewn mathemateg dros y cyfnod hwn wedi bod mor gyflym â'r gyfradd mewn Saesneg ledled y rhanbarth, er bod hyn fwy neu lai yn cydfynd â chyfradd y gwelliant ledled Cymru. Yn 2015, mae perfformiad o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru ychydig yn well na'r cyfartaledd.

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod gwasanaethau gwella ysgolion yn mynd i'r afael â pherfformiad ysgolion sy'n destun pryder, yn enwedig yn y sector uwchradd
- A2 Sicrhau bod cynllunio ar gyfer gwella addysg yn integreiddio blaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn glir, fel bod cynlluniau ERW ac awdurdodau lleol yn ategu ei gilydd ac yn cynnwys camau gweithredu sy'n benodol a mesuradwy, gyda cherrig milltir priodol ar gyfer cyflawni
- A3 Sicrhau bod gwaith y prif fyrddau a gweithgorau yn cael ei gofnodi'n ofalus a chyson, fel bod pryderon, penderfyniadau a chymau gweithredu'n glir, yn archwiliadwy, bod costau llawn ar eu cyfer, a'u bod yn galluogi arweinwyr i fonitro cynnydd
- A4 Mireinio'r fframwaith ar gyfer asesu gwerth am arian fel bod yr holl gostau perthnasol ar draws y chwe awdurdod yn cael eu hystyried yn llawn pan gânt eu gosod yn erbyn deilliannau

Prif ganfyddiadau

Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Da

Mae ERW yn adnabod y rhan fwyaf o'i ysgolion yn dda. Mae fframwaith ERW ar gyfer cynorthwyo ysgolion i wella, y mae'n ei alw 'yr ysgol gymorth', yn amlinellu'n glir y modd y bydd yn gweithio gydag ysgolion i'w helpu i wella, ac mae ysgolion yn deall hyn. Mae dull ERW o ran gwaith gwella ysgolion wedi ei seilio ar weithgarwch safonol defnyddiol gyda phob ysgol, ochr yn ochr â gradd gymesur ac addas o gymorth, monitro neu ymyrraeth ychwanegol yn seiliedig ar anghenion unigol pob ysgol.

Mae ymgynghorwyr her yn ymweld â phob ysgol o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Mae'r ymweliad cyntaf yn dilyn strwythur defnyddiol a chyffredin ym mhob ysgol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ymgynghorwyr yn herio arweinwyr ysgol yn drylwyr am berfformiad, darpariaeth ac arweinyddiaeth yr ysgol ac yn cytuno ar flaenoriaethau priodol o ran cymorth ar gyfer y flwyddyn i ddod. O ganlyniad, mae ERW yn categoreiddio ysgolion yn briodol. Mewn rhai achosion, mae barnau ymgynghorwyr her am ysgolion yn rhy hael ac maent yn colli meysydd pwysig i'w gwella yn yr ysgol.

Yn ystod yr ail ymweliad, mae ymgynghorwyr her yn monitro cynnydd ysgol, ac mae'r gwaith hwn yn drylwyr yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r dull ar gyfer yr ail ymweliad hwn yn fwy hyblyg a phwrpasol na'r cyntaf ac yn rhoi ystyriaeth dda i gatedoreiddiad yr ysgol a'r meysydd penodol i'w gwella.

Mewn ysgolion sy'n destun pryder, mae ERW yn sefydlu grwpiau ffurfiol i fonitro cynnydd yr ysgol yn agos a sicrhau bod gwaith i gefnogi'r ysgol yn cael ei gydlynu. Mae'r grwpiau hyn yn effeithiol fel arfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ERW yn rhoi digon o wybodaeth i awdurdodau lleol i gefnogi eu defnydd o bwerau ymyrraeth statudol mewn ysgolion sy'n destun pryder. Mae ysgolion sy'n destun pryder yn aml yn gwneud cynnydd da yn y rhanbarth. Er nad yw rhai ysgolion uwchradd yn gwneud cynnydd da, mae'r rhesymau am hyn, yn rhannol, yn fater i'r awdurdodau lleol perthnasol fynd i'r afael ag ef yn hytrach na'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol.

Mae ERW yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gytuno ar dargedau statudol addas ar gyfer perfformiad ar ddiwedd y cyfnodau allweddol ym mhob ysgol. Nid yw ERW yn gosod targedau eraill gyda'r holl ysgolion. Fodd bynnag, caiff targedau penodol eraill eu defnyddio'n effeithiol yn aml gydag ysgolion sydd wedi eu nodi ar gyfer cymorth dwys.

Mae ERW yn casglu a dadansoddi ystod eang o ddata perthnasol ar lefel disgybl ac ysgol. Mae'n creu pecynnau data defnyddiol sy'n cefnogi gwaith ymgynghorwyr her, staff eraill gwella ysgolion a swyddogion awdurdodau lleol. Yn ychwanegol, mae ymgynghorwyr her yn gweithio'n dda gydag ysgolion, ac yn rhoi ystyriaeth dda i wybodaeth amdanynt gan wasanaethau awdurdodau lleol, fel anghenion dysgu ychwanegol, lles, adnoddau dynol, llywodraethwyr a gwasanaethau ariannol.

Mae ansawdd ac argaeledd gwasanaethau gwella ysgolion yn deg i ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a thrwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ERW yn mynd ati'n effeithiol i gefnogi ysgolion sy'n cymryd rhan ym menter Her Ysgolion Cymru. Mae gwaith ymgynghorwyr her gydag unedau cyfeirio disgyblion yn llai effeithiol, ar y cyfan, na gydag ysgolion prif lif. Fel arfer, mae ymgynghorwyr her yn gweithio'n dda gyda chyrrff llywodraethu.

Mae ymgynghorwyr her, sy'n cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol unigol, a staff eraill gwella ysgolion, yn cael rhaglen ymsefydlu ddefnyddiol pan fyddant yn ymuno ag ERW, yn ogystal â hyfforddiant a chymorth parhaus da. Caiff ymgynghorwyr her eu defnyddio'n briodol yn y rhanbarth er eu bod yn gyflogedig gan awdurdodau lleol unigol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r rhan fwyaf o adroddiadau y mae ERW yn eu darparu i Estyn cyn arolygiadau ysgol neu ymweliadau monitro yn dangos dealltwriaeth gadarn o gryfderau ysgol a'r meysydd i'w gwella. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd gan Estyn bryderon sylweddol ynglŷn â thraean o adroddiadau. Mae'r gwelliant diweddar yn ansawdd yr adroddiadau yn adlewyrchu gwaith trylwyr yn ERW i sicrhau bod ymgynghorwyr her yn gweithio yn unol â safonau disgwylidig. Mae gan y consortiw brosesau sicrhau ansawdd cryf ar waith erbyn hyn ar gyfer gwaith ei ymgynghorwyr her a staff eraill gwella ysgolion.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae ERW yn darparu neu'n trefnu cymorth addas yn llwyddiannus i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella. Mae ERW yn darparu cymorth ac arweiniad da ar gyfer ysgolion mewn meysydd allweddol fel dysgu ac addysgu, y Cyfnod Sylfaen, pynciau craidd, llythrennedd, rhifedd, asesiadau statudol, newidiadau i gymwysterau ac arweinyddiaeth ysgol.

Mae ERW yn defnyddio ei wybodaeth am arfer dda yn dda i drefnu cryn dipyn o gymorth o ysgol i ysgol, sydd fel arfer yn gweithio'n llwyddiannus. Trwy waith ymgynghorwyr her a staff eraill gwella ysgolion, mae gan ERW amgyffrediad da o ble mae arfer dda yn bodoli yn y rhanbarth, boed hynny ar lefel ysgol gyfan neu mewn agwedd benodol ar waith ysgol yn unig, er enghraifft yn un o feysydd y cwricwlwm, hyd yn oed os nad yw'r ysgol yn perfformio'n dda ar y cyfan.

Mae ymgynghorwyr her yn monitro p'un a yw ysgolion yn cydymffurfio o ran eu defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae ymgynghorwyr yn rhoi arweiniad buddiol i ysgolion ar ddefnyddio'r cyllid yn briodol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw arfarniad ERW o effaith cyllid ar safonau dysgwyr.

Mae gan ERW systemau da ar gyfer cofnodi gwybodaeth am eu gwaith gydag ysgolion, ac arfarniadau ohonynt. Mae'r systemau hyn yn galluogi arweinwyr i fonitro a sicrhau ansawdd y gwaith a wna ymgynghorwyr her a staff eraill sy'n herio a chynorthwyo ysgolion i wella.

Mae ERW wedi dadansoddi gwybodaeth yn dda i ddeall pryderon am recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr. Mae ERW yn cynllunio'n briodol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn ac mae'n ymgymryd â rhagor o waith ymchwil i lywio cynllunio yn y dyfodol.

Arweinyddiaeth: Da

Gyda'i gilydd, mae'r chwe awdurdod lleol yn y rhanbarth hwn wedi sefydlu hunaniaeth gref ar gyfer ERW. Maent wedi cytuno i gydweithio i wella pob ysgol yn y rhanbarth. Caiff gwaith ERW ei reoli gan gytundeb cyfreithiol sy'n amlinellu'n glir ddiben y cydweithio, a'r hyn sy'n ddisgwyliedig o bawb, ac yn benodol, eu cyfraniad priodol at ddarparu adnoddau a rheoli gwaith ERW. O ganlyniad i'r cydweithio hwn, rhoddwyd cymorth a her well i ysgolion yn y rhanbarth, trwy gasglu a dadansoddi data yn fwy cyson ac arfarnu darpariaeth ac arweinyddiaeth yn well mewn ysgolion.

Mae'r Cyd-bwyllgor yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer y Bwrdd Gweithredol, sy'n cynnwys swyddog uchaf addysg pob awdurdod a'r Rheolwr Gyfarwyddwr, trwy fabwysiadu'r Strategaeth a'r Cynllun Busnes Rhanbarthol. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi cytuno ar ddirprwyo pwerau mewn ffordd glir a chynhwysfawr, sy'n galluogi'r Bwrdd Gweithredol a'r Rheolwr Gyfarwyddwr i ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau priodol yn effeithiol.

Caiff y Bwrdd Gweithredol a'r Rheolwr Gyfarwyddwr eu cynorthwyo gan ystod o grwpiau eraill wrth ddatblygu gwaith ERW, ac wrth gyflawni ei fusnes craidd, er enghraifft y Bwrdd Gweithredu Strategaeth, sy'n cynnwys uwch swyddogion addysg o bob awdurdod, y Grŵp Strategaeth, sy'n cynnwys uwch arweinwyr o fewn ERW, a thair canolfan sy'n dod ag uwch staff ar draws dau awdurdod at ei gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r agendâu, y cofnodion a'r adroddiadau ar gyfer llawer o'r grwpiau hyn yn darparu cofnod digon clir o'r hyn a drafodwyd, y camau gweithredu a gytunwyd, y cynnydd a wnaed, na goblygiadau'r rhain i waith ERW. Mae hyn yn golygu nad yw'r penderfyniadau a wnaed, newidiadau pwysig, cynnydd yn unol â cherrig milltir disgwyliedig, a deilliannau dros dro, yn cael eu cofnodi'n ddigon da, sy'n ei gwneud yn anodd monitro ac archwilio beth sy'n digwydd yn effeithiol. Er y ceir eithriadau o bryd i'w gilydd, mae'r cyfathrebu rhwng arweinwyr hŷn ERW ac arweinwyr hŷn yr awdurdodau lleol fel arfer yn ddigon da i gynnal perthynas waith effeithiol rhyngddynt.

Mae gan adran addysg bob awdurdod lleol ei dogfennau cynllunio strategol ei hun. Caiff y dogfennau hyn eu llywio gan Gynllun Integredig Sengl yr awdurdod lleol, ac mae llawer o gysylltiadau â Strategaeth a Chynllun Busnes Rhanbarthol ERW. Yn y rhan fwyaf o gynlluniau gwella addysg awdurdodau lleol, mae cyfraniad ERW wedi ei nodi'n glir. Fodd bynnag, mewn rhai cynlluniau, mae hyn yn llai clir, sy'n ei gwneud yn anos olrhain sut bydd cyfraniad ERW yn cael ei dargedu ac arfarnu effaith bosibl darnau penodol o waith yn yr awdurdodau lleol hyn.

Mae ERW yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn ei gynllunio a'i ffrydiau gwaith strategol, fel gwella llythrennedd a rhifedd, gwella presenoldeb disgyblion, a chau'r bwlch perfformio o ran rhywedd. Fodd bynnag, mae ansawdd y dogfennau strategaeth unigol yn rhy amrywiol.

At ei gilydd, mae ERW yn cynorthwyo aelodau etholedig yn dda wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau craffu. Mae adroddiadau ERW ar graffu yn glir ac addysgiadol, a rhoddir hyfforddiant defnyddiol i aelodau etholedig i'w helpu i ddeall materion addysg a dehongli data. Mae ERW wedi helpu cadeiryddion craffu'r chwe awdurdod lleol hefyd i weithio gyda'i gilydd yn agosach trwy'r Grŵp Craffu Rhanbarthol i

Gynghorwyr. Mae'r digwyddiadau hyn yn helpu cadeiryddion i feithrin dull cyffredin o graffu ar berfformiad ysgolion a gwaith ERW ledled y rhanbarth. Mae ERW wedi rhoi blaengynllun gwaith rhanbarthol ar waith, sy'n cynnwys rhaglen o archwiliadau mewnol a ddarperir trwy awdurdod lleol Sir Benfro. Nid oes gan ddeiliaid portffolio fewnbwn ddigon clir ar gyfer rheoli neu oruchwylio gwaith ERW er gwaethaf eu cyfrifoldeb allweddol yn eu hawdurdod lleol am oruchwylio gwasanaethau addysg.

Gwella ansawdd: Digionol

Ar y cyfan, mae gan ERW drefniadau cadarn ar gyfer arfarnu effeithiolrwydd ei wasanaethau gwella ysgolion. Mae ERW yn ymgysylltu'n adeiladol â rhanddeiliaid allweddol i lywio eu prosesau hunanarfarnu a chynllunio. Mae ymgynghori rheolaidd â phenaethiaid trwy holiaduron a grŵp cynrychiolwyr penaethiaid yn llywio dealltwriaeth ERW o ansawdd ei wasanaethau yn dda ac yn cynnig golwg defnyddiol ar feysydd posibl i'w gwella ymhellach.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol i lywio eu barnau hunanarfarnu. Ceir gweithdrefnau cryf ar gyfer casglu tystiolaeth am ansawdd ac effaith y cymorth a roddir i ysgolion. Mae uwch arweinwyr yn nhîm rheoli ERW yn dadansoddi'r wybodaeth hon yn effeithiol ac yn ei defnyddio i gynllunio ar gyfer gwelliannau. Mae'r consortiw yn casglu a dadansoddi data am berfformiad presennol ysgolion yn effeithiol, gan gynnwys eu perfformiad yn erbyn cymaryddion a meincnodau perthnasol. Fodd bynnag, nid yw arfarniadau'n cynnwys digon o fanylion am berfformiad grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n agored i niwed, ar lefel ranbarthol.

Mae uwch arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth hunanarfarnu a dadansoddiadau data i ddarparu adroddiadau addas ar berfformiad a chynnydd i hysbysu'r bwrdd gweithredu strategaeth, y Bwrdd Gweithredol a'r Cyd-bwyllgor am berfformiad. Mae gweithdrefnau clir ar waith i hysbysu pwyllgorau craffu awdurdodau lleol unigol am arfarniadau o safonau a darpariaeth, a hyrwyddo trafodaeth ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan ERW.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu presennol yn darparu barn deg a chytbwys am berfformiad cyffredinol ERW. Mae'r adroddiad yn cynnwys trosolwg bras a defnyddiol o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ac amlinelliad o'r gwelliannau sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Llywiwyd yr adroddiad gan safbwyntiau ystod eang o randdeiliaid.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r rhanbarth wedi datblygu ei chynllunio busnes o fodel blwyddyn i gynllun treigl tymor canolig tair blynedd. Mae'r cynllun hwn yn helpu uwch arweinwyr i ymdrin â gwella ysgolion mewn ffordd fwy strategol a chynaliadwy. Mae'r cynllun busnes presennol ar gyfer 2016-2019 yn amlinellu nodau ERW ar gyfer gwella ysgolion, ar gyfer gwella deilliannau disgyblion ac ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau gwella mewnol ymhellach. Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol allweddol wedi eu grwpio yn ôl tri maes strategol perthnasol, sef: arwain dysgu; addysgu a dysgu; a chymorth ar gyfer dysgu.

Er bod y cynllun busnes yn darparu cyfeiriad strategol clir, caiff llawer o weithgarwch ERW ei gynllunio ar lefel awdurdod lleol, gan mai dyma ble y caiff ymgynghorwyr her

a llawer o staff gwella ysgolion eraill eu cyflogi. Nid yw proses gynllunio'r ERW yn ei gwneud yn ofynnol i uwch arweinwyr yn ERW ac ar draws y chwe awdurdod lleol rannu a chraffu ar eu cynlluniau priodol i sicrhau eu bod yn ystyried blaenoriaethau rhanbarthol cytûn a ffyrdd cytûn o weithio, yn ogystal â blaenoriaethau lleol.

Caiff y tair blaenoriaeth ranbarthol allweddol eu cefnogi gan ffrydiau gwaith thematig, y mae uwch swyddogion o awdurdodau lleol yn darparu arweiniad strategol ar eu cyfer trwy ffyrddau blaenoriaeth. Caiff y ffrydiau gwaith eu cefnogi'n dda gan uwch arweinwyr tîm craidd ERW.

Fodd bynnag, nid yw'r cynllun busnes a dogfennau cysylltiedig yn amlinellu'n ddigon clir sut bydd effaith gwaith ERW yn cael ei arfarnu a sut bydd cynnydd yn erbyn blaenoriaethau ERW yn cael ei olrhain a'i fesur. Mae hyn yn cyfyngu ar allu ERW i gofnodi, dadansoddi, ac adrodd ar y wybodaeth sydd ei hangen i adolygu pa mor effeithiol y mae'n gwella agweddau ar ei wasanaeth.

Mae gan ERW drefniadau rheoli perfformiad addas ar gyfer ei dîm canolog o staff. Mae gan bob un ohonynt amcanion rheoli perfformiad perthnasol; fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw'r amcanion hyn wedi eu cysylltu'n ddigon clir â chynllun busnes ERW. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i uwch arweinwyr fonitro cyfraniadau unigolion at y nodau trosfwaol. Caiff ymgynghorwyr her ERW eu cyflogi'n uniongyrchol gan bob un o'r chwe awdurdod lleol, ac felly, caiff y ffordd y maent yn rheoli perfformiad ei hwyluso ar lefel awdurdod lleol, er bod ERW yn cyfrannu at y broses yn briodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ERW wedi mireinio a ffurfioli ei drefniadau ar gyfer nodi a rheoli ei risgiau. Mae'r broses yn briodol ac yn cynnwys camau gweithredu perthnasol i liniaru yn erbyn y risgiau.

Mae ERW wedi rhoi ystyriaeth dda i argymhellion adroddiadau Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n olrhain y cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion hyn yn drefnus, ac yn cyflwyno dadansoddiad gwerth chweil yn eu hadroddiad hunanarfarnu. Adroddir yn briodol am y cynnydd wrth y Bwrdd Gweithredol a'r Cydbwyllgor.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae ERW yn gynghrair effeithiol o'r chwe awdurdod lleol yn ne orllewin Cymru. Caiff llawer o'r staff sy'n gweithio i ERW, gan gynnwys yr holl ymgynghorwyr her, eu cyflogi gan awdurdodau lleol unigol yn hytrach na fel rhan o dîm canolog ERW. Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid a staff awdurdodau lleol yn y rhanbarth yn deall y dull hwn, sy'n unigryw o gymharu â'r tri chonsortiw rhanbarthol arall.

Mae ERW wedi ymgysylltu'n rhagweithiol ag ystod o bartneriaid. Mae'n canolbwyntio'i amser a'i ymdrech ar bartneriaethau sy'n cefnogi gwaith yn gysylltiedig â'i dair blaenoriaeth allweddol, sef arwain dysgu, addysgu a dysgu a chymorth ar gyfer dysgu.

Mae penaethiaid a swyddogion awdurdodau lleol yn cyfrannu'n dda wrth ddylanwadu ar gyfeiriad a blaenoriaethau strategol ERW. Mae'r bwrdd cynrychioliadol

penaethiaid yn fforwm effeithiol o ran darparu llais i benaethiaid ledled y rhanbarth; er enghraifft, ac mae wedi cyfrannu'n dda at ddatblygiad parhaus y broses ymweliadau craidd.

Ar y cyfan, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o ddata ar lefel llywodraethwr o ganlyniad i'r hyfforddiant a ddarperir gan ERW. Fodd bynnag, nid ydynt mor glir am y gwahaniaethau rhwng y cymorth a ddarperir gan ERW a'r cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol.

Mae'r cysylltiadau adeiladol y mae ERW wedi sefydlu gyda sefydliadau addysg uwch yn amrywiol ac yn seiliedig ar wella'r tirlun dysgu ac addysgu ledled y rhanbarth. Mae'r consortiwm wedi hwyluso cydweithio effeithiol rhwng ysgolion a phrifysgolion lleol hefyd. O ganlyniad i'r cydweithio agos, mae cyrsiau pwrpasol a chyfleoedd datblygiad proffesiynol perthnasol ar gael i staff ysgol, ac mae staff ERW yn cyfrannu at gyflwyno'r hyfforddiant hwn. Mae ystod o gymwysterau proffesiynol ôl-raddedig priodol ar gael, er enghraifft mewn arweinyddiaeth ysgol ac anghenion addysgol arbennig. Mae ERW wedi gweithio'n dda gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gynllunio cwrs achrededig arloesol i ddechrau ym Medi 2016 ar gyfer athrawon sydd â chymwysterau addas i ailhyfforddi i fod yn athrawon mathemateg uwchradd, gan fod ysgolion yn y rhanbarth wedi cael anawsterau penodol yn recriwtio athrawon mathemateg.

Mae ERW wedi comisiynu Prifysgol Bangor, ar y cyd â chonsortiwm rhanbarthol arall, i'w helpu i ddeall y rhesymau dros berfformiad cymharol wan mewn ysgolion gwledig yn y rhanbarth ac ystyried pa strategaethau a allai gefnogi gwelliant yn fwyaf effeithiol yn yr ysgolion hyn yn y dyfodol. Mae'r consortiwm wedi sefydlu cysylltiadau cryf ag awdurdodau esgobaethol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd, ac mae'r consortiwm yn sicrhau y gwrandewir ar safbwyntiau cyfunol ysgolion eglwysig. Fodd bynnag, nid yw'r rôl sydd gan awdurdodau esgobaethol o ran ffurfio polisi rhanbarthol wedi ei datblygu cystal.

Mae ERW wedi dynodi swyddog arweiniol ar gyfer gwaith i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad ac mae wedi penodi cydlynnydd rhanbarthol ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion a phlant sy'n derbyn gofal. Mae gan y cydlynnydd ddealltwriaeth gadarn o anghenion plant sy'n derbyn gofal ac mae ganddo gysylltiadau cryf â chydlynwyr plant sy'n derbyn gofal ledled y rhanbarth. Megis dechrau datblygu y mae gwaith ERW gyda phartneriaid wrth roi'r strategaeth gwrthdlodi ar waith.

Mae ERW yn cefnogi gwaith partneriaeth ledled y rhanbarth i wella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed. Fodd bynnag, mae rôl ERW yn gyfyngedig ar y cyfan i sicrhau bod grantiau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, fel cyllid ar gyfer Bagloriaeth Cymru.

Mae aelodau o bwyllgorau craffu yn ymgysylltu'n dda â'i gilydd ac yn rhannu gweledigaeth ERW. Mae'r aelodau hyn yn elwa ar gyflwyniadau defnyddiol gan staff ERW ac maent yn gwerthfawrogi'r eglurder wrth rannu gwybodaeth am berfformiad ysgolion o bob cwr o'r rhanbarth.

Mae ERW yn elwa ar gymorth proffesiynol gan awdurdodau lleol ar ystod o swyddogaethau, gan gynnwys adnoddau dynol a llywodraethu. Mae swyddogion awdurdodau lleol yn glir iawn ynglŷn â'r rolau arwain sydd ganddynt ac o ran cynghori'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyd-bwyllgor.

Ceir cysylltiadau effeithiol â'r consortia rhanbarthol eraill a defnyddiwyd y rhain yn effeithiol i ddylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau cenedlaethol. Mae ERW wedi arwain yn strategol hefyd ar ddatblygu cynllun cyfathrebu i godi proffil addysgu fel opsiwn gyrfu.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan ERW ethos cryf o gydweithio ar draws y chwe awdurdod lleol. Mae'r awdurdodau lleol wedi ymrwmo i ariannu'r hyn sydd gyfwerth â 58 o ymgynghorwyr her amser llawn fel adnodd rhanbarthol anlleihadwy, a ddefnyddir yn lleol gan y chwe awdurdod lleol. Mae'r nifer hon yn parhau'n ddigyfnewid ers cytundeb cyfreithiol gwreiddiol ERW, er bod ERW yn cyflwyno ei raglen ymweliadau craidd yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o ysgolion gyda chryn dipyn yn llai o ymgynghorwyr her. Caiff cyllid gwella ysgolion ei gadw yn y chwe awdurdod lleol yn bennaf, a neilltuir adnoddau o fewn yr ardal, yn unol â'r angen, sydd wedi ei seilio yn bennaf ar y broses gategoreiddio. Mae'r rhanbarth wedi cytuno ar ymatebion i anghenion cymorth penodol hefyd mewn rhai awdurdodau lleol dros y tair blynedd ddiwethaf ac mae wedi symud adnoddau i ddarparu'r cymorth hwn.

Fel yr amlinellir yng nghytundeb cyfreithiol ERW, mae pob un o'r chwe awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth ar y cyd ar gyfer y rhanbarth, er enghraifft swyddog monitro neu gaffael. Fodd bynnag, gan fod cost y gwasanaethau hyn i bob awdurdod lleol yn amrywio, caiff y baich ei rannu'n anghyfartal ar draws y chwe awdurdod. Rhan arall a dderbynnir o'r dull rhanbarthol yw bod swyddogion awdurdodau lleol yn cyfrannu at weithio rhanbarthol trwy ddarparu ystod eang o weithgareddau ar sail taliad mewn nwyddau neu wasanaethau. Fodd bynnag, nid yw'r rhanbarth yn ceisio meintoli gwerth ariannol llawn y cymorth hwn.

Mae pwyslais cryf y rhanbarth ar gydweithio wedi arwain at ddarparu dogfennau arweiniad, templedi a chymorth polisi yn effeithiol, sy'n lleihau dyblygu ac yn cynyddu dull cyson ar draws yr awdurdodau.

Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch cynllunio ariannol a threfniadau ar gyfer tîm canolog ERW wedi eu datblygu'n dda, ac fe gaiff y gyllideb ganolog a chyllid grant wrth gefn eu monitro'n agos bob wythnos. Ceir cysylltiadau effeithiol rhwng swyddogion ariannol ERW a thimau cyllid yr awdurdodau lleol sy'n galluogi rheoli prosesau yn effeithiol.

Yng nghynllun busnes ERW, ceir gwybodaeth gyfyngedig am lefel yr adnoddau ar gyfer meysydd y cynllun busnes sy'n ymwneud â'r tîm canolog, er bod y cynllun yn nodi p'un a ddylid defnyddio cyllid craidd neu gyllid grant. Mae ERW yn ystyried yn strategol ystod y risgiau ariannol y mae'n eu hwynebu ac yn sicrhau bod camau gweithredu perthnasol yn cael eu cymryd i liniaru yn erbyn y rheiny yn briodol.

Mae'r adroddiadau ariannol rheolaidd a gyflwynir i'r Cyd-bwyllgor am ddyraniadau'r tîm canolog a dyraniadau grant yn glir ac yn galluogi aelodau o'r Cyd-bwyllgor i wneud penderfyniadau gwybodus. Yn ddiweddar, mae'r Cyd-bwyllgor wedi ystyried gofynion cyllid tymor canolog y tîm canolog i sicrhau ei fod yn gallu cyflwyno ei wasanaeth i'r rhanbarth.

Bob blwyddyn, mae'r Cyd-bwyllgor yn cytuno ar fformiwla ar gyfer dirprwyo'r Grant Gwella Addysg i ysgolion ac mae wedi cytuno i ddefnyddio lefelau dirprwyo uchel i fodloni ei nodau strategol. Mae egwyddor glir ar waith fod cyllid yn cael ei ddefnyddio i wella ysgolion a chynyddu gallu ysgolion tra'n cadw tîm canolog darbodus.

Mae ymgynghorwyr her a swyddogion ERW yn herio ysgolion yn briodol ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer defnyddio cyllid grant ac ystyrir rheoli adnoddau mewn cyfarfodydd ag ysgolion. Mae ERW wedi llwyddo i ennill cyllid grant ychwanegol i gefnogi ei nodau strategol.

Mae proses archwilio mewnol ERW wedi cryfhau ei sicrwydd ar ystod o feysydd, gan gynnwys cyllid grant a threfniadau llywodraethu ehangach tra'n cydnabod bod angen gwella nifer fach o feysydd ymhellach. Mewn perthynas â chyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion, mae archwilio mewnol wedi cadarnhau bod cyllid 2015-2016 wedi cael ei ddefnyddio'n briodol yn y rhanbarth ac mae cynlluniau addas ar waith sy'n amlinellu'r modd y byddai'r grant yn cael ei ddefnyddio. Mae systemau olrhain ar waith hefyd i fonitro deilliannau disgyblion cymwys yn unol â hawl i'r grant. Yn ychwanegol, sefydlwyd monitro archwilio chwarterol o drefniadau'r Grant Amddifadedd Disgyblion sy'n galluogi'r chwe awdurdod lleol i roi sicrwydd effeithiol i swyddog adran 151 ERW.

Er nad oes ganddo strategaeth ysgrifenedig ar y gweithlu, mae gan ERW ddealltwriaeth dda o anghenion y gweithlu yn y dyfodol ledled y rhanbarth, ac mae hyn wedi llywio datblygiad nifer o bartneriaethau yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r materion hyn; er, mae'n rhy gynnar i asesu'r effaith. Mae ERW yn defnyddio secondiadau'n dda i ddarparu cyfleoedd datblygu ar gyfer arweinwyr ysgol a meithrin gallu ar gyfer hunanwella; er, mae'n rhy gynnar i arfarnu'r effaith ar ddeilliannau disgyblion yn ffurfiol.

Mae ERW wedi datblygu ei fframwaith ymhellach i ystyried gwerth am arian, sy'n cynnwys cyfres o saith egwyddor sy'n ceisio llywio barn gyffredinol. Mae'n ystyried effaith ei wasanaethau ar ddeilliannau disgyblion, gan nodi perfformiad cyffredinol prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn wedi ei ddatblygu'n llawn ac nid yw'n ystyried crynswth yr adnoddau a ddefnyddir i ddylanwadu ar ddeilliannau, gan gynnwys y cyfraniadau gan bob awdurdod lleol trwy daliad mewn nwyddau neu wasanaethau.

Mae ERW yn bwriadu cynnal adolygiad gwerth am arian ffurfiol yn ddiweddarach yn 2016 i'w ystyried gan y Cyd-bwyllgor, er bod nifer o elfennau o'r tîm canolog eisoes wedi cael eu hadolygu yn erbyn y fframwaith, gan gynnwys y tîm gweinyddol canolog a'r gwasanaeth cyfieithu. Nododd yr adolygiad hwnnw fod angen ad-drefnu i adlewyrchu'r gofynion newidiol ar y tîm yn well ac mae hyn wedi cynyddu ei allu heb gost ychwanegol i awdurdodau lleol.

Atodiad 1

Y tîm arolygu

Iwan Roberts	Arolygydd Cofnodol
Mark Champion	Arolygydd Tîm
Tony Bate	Arolygydd Tîm
Huw Davies	Arolygydd Tîm
Gerard Kerslake	Arolygydd Tîm
Huw Watkins	Arolygydd Tîm
Robert Davies	Arolygydd Tîm
Hywel Jones	Arolygydd Tîm
Karen Newby Jones	Arolygydd Tîm
Rhona Edwards	Arolygydd Tîm
Sian Clark	Swyddfa Archwilio Cymru
Gareth Jones	Swyddfa Archwilio Cymru
Helen Morgan Rees	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Rhestr termau

Y Cwricwlwm Cenedlaethol

Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 6 neu lefel 7.

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6). Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen: llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf; datblygiad mathemategol; datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf naill ai mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth i gyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu'r sector ôl-16

Y dangosydd pwnc craidd – fel yr uchod.

Cymhwyster lefel 1 – mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster TGAU gradd D i G.

Trothwy lefel 1 – mae'n rhaid bod dysgwyr wedi ennill swm o gymwysterau sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU graddau D i G.

Cymhwyster lefel 2 – mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster TGAU gradd A* i C.

Trothwy lefel 2 – mae'n rhaid bod dysgwyr wedi ennill swm o gymwysterau sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU gradd A* i C.

Trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg – mae'n rhaid bod dysgwyr wedi ennill cymwysterau lefel 2 naill ai mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

Cymhwyster lefel 3 – mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster Safon Uwch gradd A* i C.

Trothwy lefel 3 – mae'n rhaid bod dysgwyr wedi ennill swm o gymwysterau sydd gyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch gradd A* i E.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach** yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft yn 16 neu'n 18 oed. I gyfrifo hyn, caiff cyfanswm y pwyntiau a enillir gan yr holl ddysgwyr yn y garfan ei rannu â nifer y dysgwyr.

Mae'r **sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio** yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau yn unig ar gyfer pob disgybl o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad ag ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol y mae eu caffaeliad yn llai na chymwys.